Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Y Gwir Anrhydeddus Robert Buckland CF AS
Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

22 Rhagfyr 2020

Annwyl Arglwydd Ganghellor

**Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru: Gwahoddiad i roi tystiolaeth**

Ysgrifennais atoch ar 19 Mehefin 2020 mewn perthynas ag ymchwiliad y Pwyllgor, sef **Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru**. Ar y pryd, nodais bod y gwaith hwn yn seiliedig ar adroddiad a gyhoeddwyd gan **y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru**.

Fel y nodais yn fy llythyr blaenorol, ac fel rhan o'n hymchwiliad, hoffwn eich gwahodd i gyfarfod rhithwir o'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2021. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o'ch rhwymedigaethau fel Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder. Gan hynny, rydym wedi cynnig dau ddyddiad ar gyfer cynnal sesiwn o'r fath - bore'r 1af neu'r 8fed o Chwefror 2021.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau, cyn gynted â phosibl, a fyddech ar gael i fod yn bresennol ar y naill ddyddiad neu'r llall, er mwyn i'n swyddogion fedru bwrw ymlaen â'r paratoadau angenrheidiol.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565